



Dafydd ap Gwilym – CA5

Tasg 1: Yr Amhersonol

1. Darllenwch y paragraffau isod o hunangofiant Gwyn Thomas.
Ydych chi'n gwybod ystyr y geiriau sydd wedi eu huwcholeuo? Ystyriwch sut y byddech chi'n eu cyfieithu cyn clicio ar yr awgrym.

Yr Aelwyd

Roedd ein haelwyd ni'n aelwyd grefyddol, heb fod mewn unrhyw fodd yn **sych-dduwiol**. Tan oeddwn i'n naw oed roeddem ni'n bedwar, Mam (Eluned), Dad (Ted), gŵr tawel, **anymwthgar** a chefnogwr brwd a chadarn i mi bob cam o'r ffordd, Taid (John Jones y Gof, sef tad fy mam), a minnau. Fel unig blentyn, fy mam oedd goleuni fy llygaid i, wrth reswm. Roedd hi'n ddarllenwraig **selog** iawn, gan ddarllen pentyrrau o lyfrau Cymraeg a Saesneg, ac yn un oedd yn cymryd ei chrefydd o ddifrif.

Yn ddiweddar, wrth **snwfflan** trwy hen bethau yn y tŷ yma mi **drewais** i ar lyfr nad oeddwn i wedi ei weld o'r blaen. Llyfr ysgrifennu oedd o, un glas, ac ynddo fo roedd nodiadau fy mam ar gyrsiau mewn rhyw ysgol nos neu'i gilydd. Fe sylweddolais **o'r newydd** mor wirioneddol ddeallus oedd hi. Athrawes plant bach oedd hi cyn priodi. O ran addysg neb yn y byd, **y peth gorau un** ydi cael mam sy'n athrawes plant bach. Pam? Am fod fy mam o athrawes wedi fy nysgu i ddarllen **ers pan oeddwn i'n ddim o beth**, cyn imi fynd i'r ysgol, ac felly doedd yna ddim her i mi yn y llyfrau a **roddid** imi i'w darllen yn y fan honno pan ddechreuais i fynd yno.

Roedd fy nhaid, tad fy mam, yn ŵr **urddasol** o ran ei ymddangosiad a'i gymeriad, yn ysgrythurwr heb ei ail, ac yn ddarllenwr mawr. Rydw i wedi sôn, mewn man arall, fel y byddai o'n rhyw fyfyrto ag ef ei hun, yn ei gadair freichiau bren, solat (cadair na fyddwn i'n gadael i neb arall feiddio eistedd arni, a chadair sydd heddiw yn fy meddiant i) am yr hyn yr oedd newydd ei ddarllen, gan ddefnyddio ei law i bwysleisio ambell beth yn ei fyfyrddod.

Thomas, G. (2015) *Llyfr Gwyn*, Barddas: Tal-y-bont, tt. 21-22



	CYMRAEG	Saesneg: eich awgrym chi?	SAESNEG (awgrymiadau'r golygydd)
1	sych-dduwiol		pious, religious and without humour
2	anymwthgar		unintrusive
3	selog		ardent, unfailing, constant
4	snwfflan		snuffle
5	mi drewais ar (o'r ferf taro)		I hit upon
6	o'r newydd		anew, once more
7	y peth gorau un		the best thing of all
8	ers pan oeddwn i'n ddim o beth		since I was a tiny tot
9	a roddid i mi (o'r ferf rhoi)		that used to be given to me
10	urddasol		dignified, noble



2. Yr amhersonol.

Ffurf ar yr amhersonol yw 'rhoddir'. Mae'r amhersonol yn ffurf ddefnyddiol iawn yn y Gymraeg.

Fel mae'r enw'n ei awgrymu – 'AMHERSONOL' – nid oes posibil dweud yn union PWY neu BETH sydd wedi gwneud y ferf pan mae yn y ffurf amhersonol.

Yn Saesneg, er mwyn mynegi hyn, rydym ni'n defnyddio ffurfiau fel *one, they* neu'r gystrawen oddefol (*passive*).

Fel hyn:

One believes that ...

Credir bod ...

They believe that ...

Credir bod ...

It is believed that ...

Credir bod ...

Mae tri o'r gosodiadau isod yn gywir a thri yn anghywir.

Maen nhw'n anghywir am eu bod nhw'n defnyddio'r AMHERSONOL + yn enwi PWY neu BETH sy'n gwneud y ferf.

Rhowch i nodi cywir / anghywir.



Defnyddio'r AMHERSONOL yn gywir	
Gwelir llawer o blant yn chwarae ar yr iard	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth sy'n gweld y plant.
Credir y gwleidyddion bod angen torri trethi.	
Dywedid yn yr hen amser bod modd dal annwyd wrth fynd allan yn y glaw.	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth oedd yn arfer dweud.
Defnyddir y bardd lawer o gyflythrennu'n effeithiol i gyfleu morthwyl y gof.	
Ysgrifennwyd Dafydd ap Gwilym gywyddau serch i Morfudd	
Rhagwelir y bydd hi'n bwrw glaw drwy gydol yfory.	Dydyn ni ddim yn gwybod yn union pwy/beth sy'n rhagweld ...